OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2018 No. 1339

# Rheoliadau Gwasanaethau Maethu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2018

## RHAN 2

Gofynion cyffredinol ar gyfer darparwyr awdurdodau lleol

### Gofynion o ran addasrwydd ar gyfer penodi rheolwr

**8.**—(1) Ni chaiff y darparwr awdurdod lleol benodi person i reoli'r gwasanaeth oni bai bod y person hwnnw yn addas i wneud hynny.

(2) At ddibenion paragraff (1), nid yw person yn addas i reoli'r gwasanaeth oni bai bod gofynion rheoliad 29(2) (addasrwydd staff) wedi eu bodloni mewn cysylltiad â'r person hwnnw.